# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 4 Medi 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 4 Medi 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Medi 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago

**PWNC:** Gwerthiant llain 2 Glyn Rhonwy ar brydles hir dymor.

**PENDERFYNIAD –**

Argymhellir fod y Cyngor yn rhoi prydles ar gyfer adeiladu uned ddiwydiannol i cynnwys gofod storio, swyddfeydd a mannau cymunedol ar y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun atodedig yn uniongyrchol i Always Aim High. Bydd opsiwn i'r darpar denant gaffael diddordeb hir dymor ar ffurf les 125 mlynedd unwaith y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau. Y trefniadau prydlesu i fod yn amodol ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis – Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 4 Medi 2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Gwerthiant llain 2 Glyn Rhonwy ar brydles hir dymor.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Argymhellir fod y Cyngor yn rhoi prydles ar gyfer adeiladu uned ddiwydiannol i cynnwys gofod storio, swyddfeydd a mannau cymunedol ar y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun atodedig yn uniongyrchol i Always Aim High. Bydd opsiwn i'r darpar denant gaffael diddordeb hir dymor ar ffurf les 125 mlynedd unwaith y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau.

Y trefniadau prydlesu i fod yn amodol ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi datblygiad ar safle Glyn Rhonwy sydd wedi aros yn wag ers nifer o flynyddoedd, gan ddod a buddion economaidd i'r ardal.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad Aelod Cabinet i waredu eiddo pan fo'r dderbynneb uwchlaw £25,000.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw rai sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Yn dilyn sawl ymgais farchnata aflwyddiannus dros nifer o flynyddoedd, daeth cynnig i law gan Always Aim High sy'n barod i ddatblygu'r safle gan ddychwelyd i

sefyldu eu pencadlys yng Wynedd. Rhagwelir y bydd y symudiad yma yn arwain at hwb o ran cynnal digwyddiadau awyr agored yng Ngwynedd, ac yn darparu buddion economaidd ehangach i'r ardal.
Mae hawl cynllunio eisoes wedi ei dderbyn ar gyfer gwireddu'r datblygiad.

Er mwyn sicrhau fod y datblygiad yn cael ei wireddu, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hwb economaidd, bydd y trosglwyddiad yn digwydd mewn dau gam.

Fel cam cyntaf, bydd 'Prydles Adeiladu' 5 mlynedd yn cael ei roi i Always Aim High er eu galluogi i ymgymryd a'r gwaith datblygu, a hynny mewn cyfnewid am bremiwm sydd gyfystyr â gwerth marchnad agored y safle. Bydd y brydes yn cynnwys yr hawl i Always Aim High gaffael diddordeb hir dymor ar ffurf les (125 mlynedd) unwaith bo'r gwaith o ddatblygu'r uned wedi'i gwblhau i safon dderbyniol.

Mae Always Aim High wedi llwyddo i sicrhau arian grant trwy'r Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF) a fydd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y costau datblygu. Mae'r grant SPF hefyd yn gosod amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith datblygu .

Fel ail gam, a  cyn belled a bo'r gwaith o ddatblygu'r uned wedi ei gwblhau o fewn cyfnod y brydles adeiladu, bydd gan Always Aim High yr opsiwn i sicrhau prydles 125 mlynedd o'r safle am swm enwol.

Pe na bai'r datblygiad yn cael ei gwblhau, bydd y safle yn dychwelyd i'r Cyngor ac mae'r adran Economi a Chymuned yn cydnabod y byddent yn wynebu oblygiadau cyllidol a rheolaethol o'r safle pe bai hynny'n digwydd.O ystyried fod canran sylwedol o'r costau datblygu yn cael ei ariannu trwy SPF, a chadarnad wedi ei dderbyn fod gweddill yr ariannu mewn lle, ystyrir mai bychan iawn yw'r risg.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**


Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan -** Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol. Mae amserlen dynn ar gyfer cwblhau gwariant trwy'r cynllun SPF a bydd caniatáu'r prydlesi fel amlinellir yn y daflen yn caniatáu i'r Cyngor waredu llain o dir nad yw ei angen tra'n cefnogi ymdrechion cyflogaeth.  Fel sydd wedi ei nodi, mae peth risg yn bodoli petai'r eiddo yn dychwelyd i'r Cyngor ar ôl y cyfnod cychwynnol ond mae'r cyfleon sy'n cael eu cynnig gan y penderfyniad a geisir yn gorbwyso hynny.

**Swyddog Monitro** – **Iwan Evans -** Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Aelod/au Lleol** – **Cynghorydd Edgar Owen** – Cefnogol o'r cynnig.




**Cynllun: Plan:** # Plot 2 Glyn Rhonwy

**Graddfa / Scale @ A4:** 1:2,500

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad: Date:** 24/04/2023